# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jan Curtice | Adran Etholiadol: | Ward Penyrheol |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Roeddwn (ac, ar adeg llunio hwn, rwyf o hyd) yn aelod o Blaid Lafur Etholaeth Gŵyr a Ward Lafur leol, hefyd yn ddirprwy yng nghyfarfodydd fforwm ymgyrchoedd lleol.

Cynhaliais gymorthfeydd gyda'm cynghorydd ward ym Mhenyrheol a Phengelli'n rheolaidd a mynd i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a chyfarfod â'r heddlu'n rheolaidd i roi'r diweddaraf ar faterion yn y ward.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Penodiadau | 10 | / | 14 | 71 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 5 | 80 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 18 | 89 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 14 | / | 16 | 88 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol | 2 | / | 7 | 29 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 11 | / | 14 | 79 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| **CYFFREDINOL** | **82** | **/** | **114** | **72** | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 6 | / | 12 | 50 | % |
| **CYFFREDINOL** | **6** | **/** | **12** | **50** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Cynorthwyais Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc yn ei rôl a gweithio'n agos hefyd gydag Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn fel yr Hyrwyddwr Pobl Hŷn. Euthum hefyd i gyfarfodydd y Fforwm 50 Plws. Roeddwn hefyd yn un o gynrychiolwyr y cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Hefyd yn aelod o Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Llusernau sy'n cynnal Gorymdaith Lusernau'r Nadolig yng Ngorseinon ac yn aelod o bwyllgor clwb 50 plws lleol. Hefyd, cefnogais unrhyw ddigwyddiad elusennol a gynhaliwyd yn y gymuned. Llywodraethwr yn Ysgolion Cynradd Penyrheol a Phengelli.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Ymgymerais â'r hyfforddiant canlynol:

04/05/2016 - Apeliadau Diswyddo ac Achwyn ar y Cyd
02/02/2016 – Amddiffyn Plant (Hyfforddiant Llywodraethwyr)
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
08/09/2015 - Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau
07/07/2015 - Pwyllgor Trwyddedu HMO a Masnachu ar y Stryd
12/06/2015 - Diogelu - Ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
04/06/2015 - Trwyddedu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rydym wedi llwyddo i gael croesfan pelican ym Mhengelli ar ôl nifer o flynyddoedd o geisio. Cyfrannais hefyd at ffens newydd o gwmpas Parc Pengelli a chyfrannais at gynllun ffyrdd newydd ym Mhengelli. Defnyddiais y lwfans gwella amgylcheddol i roi £2,000 i Ysgol Pengelli tuag at gyfleuster dysgu awyr agored ac rwyf wrthi'n gosod 3 diffibriliwr yn fy ward.

Ymgyrchu'n llwyddiannus i beidio â chael parc solar yn Heol Pencefnarda ym Mhenyrheol.

Euthum i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd.

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn ddirprwy aelod llywyddol Dinas a Sir Abertawe (Is-gadeirydd y cyngor).

Ymdriniais â nifer o faterion ward ar ran preswylwyr Penyrheol/Pengelli gan gynnwys materion priffyrdd, tai a phroblemau llifogydd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 30.04.2016 |